# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB)

# Cynnwys


Cymeradwyaeth: ..... 3
1. Cyflwyniad ..... 4
2. Rolau a chyfrifoldebau ..... 5
3. Blaenoriaethau a meysydd gwaith ar y cyd ..... 6
4. Rhannu gwybodaeth ..... 6
5. Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau ..... 7
6. Llywodraethu ..... 8
7. Cyfnod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'r broses o'i adolygu ..... 8
8. Atodiad A – Manylion Cyswllt a Chymeradwyaeth (mewnol yn unig – ni ddylid ei gyhoeddi) ..... 9
9. Atodiad B – Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rhannu Gwybodaeth am bryderon ..... 9

**Cymeradwyaeth:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu** | Tachwedd 2024 |
| **Awduron** | AGIC: Nicola Bresner<br>CNB: Jaina Patel |
| **Dyddiad cytuno** | Mawrth 2025 |
| **Cytunwyd arno'n ffurfiol gan** | AGIC: Alun Jones<br>CNB: Paul Rees |
| **Dyddiad adolygu** | Mawrth 2028 |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yw hwn.

1.2 Nod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw cefnogi'r gydberthynas waith rhwng AGIC a'r CNB a hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth a deallusrwydd am ddiogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru mewn ffordd effeithlon, briodol a diogel.

1.3 Mae'r gydberthynas waith rhwng AGIC a'r CNB ar ffurf trefniant lle mae'r partneriaid yn goruchwylio ac yn sicrhau ansawdd gwasanaethau gofal iechyd.

1.4 Mae'r cytundeb yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth y gall cyfathrebu'n effeithiol, mewn modd amserol, a rhannu gwybodaeth fod o fantais i bobl sy'n cael gwasanaethau gofal iechyd.

1.5 Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn effeithio ar swyddogaethau statudol presennol y sefydliadau unigol nac ar y broses o gyflawni'r swyddogaethau hynny; nid yw ychwaith yn diwygio unrhyw bolisïau na chytundebau eraill mewn perthynas â'u gweithgareddau. Nid yw'n golygu y caiff unrhyw gyfrifoldebau eu trosglwyddo o un i'r llall, nac yn golygu y caiff unrhyw gyfrifoldebau statudol eu rhannu, ac eithrio lle y caiff hynny ei ganiatáu'n statudol.

1.6 Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfreithiol gyfrwymol. Fodd bynnag, mae AGIC a'r CNB yn cytuno i gydymffurfio â'i egwyddorion, i roi ystyriaeth briodol i weithgareddau ei gilydd ac i gydweithio i gefnogi a hyrwyddo gwelliant mewn gwasanaethau gofal iechyd.

1.7 Mae'r cytundeb hwn yn dechrau ar 31 Mawrth a chaiff ei adolygu bob tair blynedd neu'n gynt os bydd hynny'n ofynnol gan y partneriaid.

## 2. Rolau a chyfrifoldebau

2.1 AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, sefydlwyd protocolau i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol.

Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn nodi meysydd y mae angen eu gwella. Ceir rhagor o fanylion am yr hyn y mae AGIC yn ei wneud ar ei gwefan www.agic.org.uk neu yma.

Mae strategaeth bresennol AGIC yn amlinellu ei nodau a'i hamcanion presennol a gellir ei gweld yn www.agic.org.uk neu yma.

Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (legislation.gov.uk)
- Deddf Safonau Gofal 2000 (legislation.gov.uk)
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 (legislation.gov.uk)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (legislation.gov.uk)
- Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008 (legislation.gov.uk)

Rhaid ystyried y canlynol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd y GIG:

- Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023).
- Dyletswydd Gonestrwydd y GIG (2023)[1].
- Datganiadau Ansawdd (lle y maent ar gael).
- Lle caiff ymbelydredd ïoneiddio ei ddefnyddio, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017(Legislation.gov.uk).

Rhaid ystyried y canlynol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol:

- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru (2011)[2].
- Rheoliadau perthnasol fel Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011(Legislation.gov.uk) a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (Legislation.gov.uk).

[1] Cyflwynwyd y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a Dyletswydd Gonestrwydd y GIG o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Legislation.gov.uk).

[2] safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gwasanaethau-gofal-iechyd-annibynnol-yng-nghymru-2011-rhif-16.pdf (llyw.cymru).

- Lle caiff ymbelydredd ïoneiddio ei ddefnyddio, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017(Legislation.gov.uk).

Dylid ystyried y canlynol ar gyfer gwasanaethau perthnasol lle y bo'n gymwys:

- Canllawiau a safonau perthnasol a luniwyd gan reoleiddwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a sefydliadau cydnabyddedig eraill.

2.2 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yw rheoleiddiwr nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr a chafodd ei sefydlu o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r CNB yn cynnal cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer ac yn ymchwilio i bryderon am unigolion cofrestredig. Mae'r CNB hefyd yn hyrwyddo safonau addysg a safonau proffesiynol uchel i unigolion cofrestredig. Y nod yw hyrwyddo a chynnal y safonau proffesiynol uchaf yn y sector nyrsio a bydwreigiaeth er mwyn diogelu'r cyhoedd ac annog hyder yn y proffesiynau. Mae manylion cyfrifoldebau a swyddogaethau'r CNB wedi'u nodi ar wefan y Cyngor: https://www.nmc.org.uk/about-us/our-role/.

## 3. Blaenoriaethau a meysydd gwaith ar y cyd

3.1 Lle caiff pryderon eu nodi (fel yr amlinellir yn Atodiad B) a bod cyfleoedd i weithio ar y cyd a chydweithredu, caiff sefydliad arweiniol ei nodi. Gall gweithio ar y cyd a chydweithredu gynnwys defnyddio gweithredoedd ei gilydd i gael sicrwydd ar fater.

## 4. Rhannu gwybodaeth

4.1 Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â rhannu gwybodaeth a deallusrwydd. Cyfeiriwch at Atodiad B sy'n rhoi arweiniad ar y broses o rannu gwybodaeth bersonol. Diben hyn yw hyrwyddo'r broses o rannu gwybodaeth am y risgiau, y pryderon a'r arferion da sy'n bodoli mewn gwasanaethau gofal iechyd.

4.2 Bydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yn cael ei nodweddu gan gyswllt rheolaidd, a phroses agored a phriodol o rannu gwybodaeth o fewn paramedrau eu fframweithiau cyfreithiol unigol.

4.3 Bydd cysylltiadau allweddol ar gael i hwyluso'r broses o rannu deallusrwydd a gwybodaeth pan fo angen.

4.4 Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac unrhyw gytundebau atodol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol. Mae hyn yn cynnwys fframweithiau neu bolisïau eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol. Cyfeiriwch at Atodiad

4.5 Mae AGIC a'r CNB yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd y naill sefydliad yn cael cais am wybodaeth a ddeilliodd o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb, fel y disgrifir yng Nghod Ymarfer adran 45 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

4.6 Bydd y trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ystyried Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018 ac yn cydymffurfio â nhw. Cyfeiriwch at Atodiad B.

4.7 Fodd bynnag, y parti sy'n cael y cais fydd yn gyfrifol am y penderfyniad o ran a ddylid datgelu'r wybodaeth neu ei chadw'n ôl (ac felly unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o'r penderfyniad hwnnw) fel y Rheolydd Data mewn perthynas â'r data.

4.8 Lle caiff gwybodaeth ei datgelu gan y naill barti at ddibenion gorfodi'r gyfraith o dan adran 35(4) a (5) o Ddeddf Diogelu Data 2018, bydd ond yn gwneud hynny yn unol â dogfen bolisi briodol fel yr amlinellir gan adran 42 o Ddeddf Diogelu Data 2018.

## 5. Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau

5.1 Bydd AGIC a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yn ceisio hysbysu ei gilydd mewn da bryd ac yn ceisio rhoi gwybodaeth ddigonol i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau arfaethedig i'r cyhoedd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cyhoeddiadau drafft.

5.2 Mae AGIC a'r CNB yn ymrwymo i gydweithio, lle y bo'n briodol, i gynhyrchu datganiadau neu ohebiaeth ar y cyd sy'n tynnu sylw at enghreifftiau o gydweithio neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad a byddant yn ystyried Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018 ac yn cydymffurfio â nhw.

5.3 Mae AGIC a'r CNB yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi, ac ni fyddant yn gweithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai'n arwain at gyhoeddi cynnwys y dogfennau hynny cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

## 6. Llywodraethu

6.1 Bydd cyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn ategu effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a'r CNB.

6.2 Fel arfer caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGIC a'r CNB ei ddatrys ar lefel gweithio. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid ei ddwyn at sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad A, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad er mwyn sicrhau datrysiad sy'n foddhaol i'r ddau sefydliad.

## 7. Cyfnod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'r broses o'i adolygu

7.1 Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad A. Byddant yn cydgysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn parhau'n gyfredol, nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â'r gydberthynas waith rhwng y ddau sefydliad.

7.2 Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei adolygu bob tair blynedd gan reolwyr y Memorandwm a nodir yn Atodiad A. Gellir hefyd ei adolygu'n amlach ar unrhyw adeg os bydd angen ei ddiwygio neu os na fydd yn berthnasol mwyach, ar gais un o'r sefydliadau.

## 8. Atodiad A – Manylion Cyswllt a Chymeradwyaeth (mewnol yn unig – ni ddylid ei gyhoeddi)

## 9. Atodiad B – Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rhannu Gwybodaeth am bryderon

Rhaid i'r holl wybodaeth a rennir rhwng partneriaid gydymffurfio â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac os bydd partneriaid yn bwriadu rhannu unrhyw wybodaeth bersonol, rhaid iddi gydymffurfio a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a'r Ddeddf Diogelu Data (2018).

Rhaid i'r partneriaid gydymffurfio â GDPR y DU os byddant yn bwriadu rhannu unrhyw wybodaeth bersonol.

**Croes-atgyfeirio Pryderon**

Bydd y ddau sefydliad yn rhannu pryderon a gwybodaeth berthnasol ag unigolyn penodedig yn y sefydliad arall lle byddant o'r farn eu bod yn berthnasol i gylch gwaith y sefydliad hwnnw. Er budd diogelwch cleifion, ni fydd y sefydliad sy'n atgyfeirio yn aros i'w ymchwiliad ei hun i gwynion sy'n gysylltiedig â chofrestrydd ddod i ben cyn rhannu'r pryderon.

Bydd AGIC yn atgyfeirio'r canlynol at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB):

- Pryderon a gwybodaeth berthnasol am weithiwr proffesiynol sydd wedi'i gofrestru â'r CNB a allai fwrw amheuon dros ei addasrwydd i ymarfer.

- Pryderon a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd a allai fwrw amheuon dros ei addasrwydd fel amgylchedd dysgu i fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth.

- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â'r gofal cyffredinol a ddarperir gan gofrestryddion y CNB mewn sefydliad gofal iechyd a allai fwrw amheuon dros faterion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth nyrsio a bydwreigiaeth.

- Bydd unrhyw ymchwiliadau i risgiau a nodwyd, neu gamau dilynol, lle cafodd pryderon eu nodi am gofrestryddion unigol y CNB, yn cydymffurfio â deddfwriaeth briodol ac adran 7 o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn.

Yn benodol, bydd y CNB yn atgyfeirio'r canlynol at AGIC:

- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd lle mae nyrsys neu fydwragedd yn ymarfer, a allai fwrw amheuon dros ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd a allai fwrw amheuon dros ei addasrwydd fel amgylchedd dysgu i fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth cyn cofrestru.

- Unrhyw faterion sy'n codi o'i waith rheoliadol a all gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i AGIC wrth adolygu a datblygu ei dull rheoleiddio.
- Gwybodaeth am unrhyw ymchwiliadau y mae'n eu cynnal a all fod yn berthnasol i gylch gwaith AGIC.
- Gwybodaeth a ddelir ganddo am sefydliad gofal iechyd ar gyfer arolygiad sydd ar ddod, ar gais AGIC.

**Sail gyfreithiol dros rannu gwybodaeth**

Mae AGIC a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yn rheolyddion data sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain at ddibenion Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018.

*Gwybodaeth a rennir gan AGIC â'r CNB*

Nodir sail gyfreithiol AGIC dros rannu data personol â'r CNB o dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 ac mewn cytundeb rhannu gwybodaeth priodol.

Lle bydd AGIC yn nodi y dylid rhannu data personol a ddelir ganddi â'r CNB er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau, bydd yn sicrhau bod sail gyfreithiol o dan GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data cyn gwneud hynny. Bydd sail gyfreithiol AGIC dros rannu data â'r CNB fel rheol yn cynnwys y canlynol:

- Erthygl 6(1)(c) o GDPR y DU: Caniatâd i rannu gwybodaeth pan fo angen er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
- Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU: Caniatâd i rannu gwybodaeth er mwyn ymgymryd â thasg a gynhelir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol
- Atodlen 8 o'r Ddeddf Diogelu Data: Gellir prosesu data at ddibenion atal, canfod, erlyn neu ymchwilio i droseddau neu gyflwyno cosbau troseddol.
- Rhannu Data Categori Arbennig:<br>Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU: Mae angen prosesu data am resymau sy'n ymwneud â budd cyhoeddus sylweddol; Atodiad 1, Rhan 2 o'r Ddeddf Diogelu Data – Gellir prosesu at ddibenion budd cyhoeddus sylweddol; Paragraff 6 pan fo'n angenrheidiol arfer swyddogaeth a roddir drwy ddeddfu rheol gyfreithiol;
- Paragraff 10 pan fo'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni swyddogaethau amddiffynnol penodol sydd wedi'u dylunio i ddiogelu aelodau o'r cyhoedd rhag ymddygiad penodol nad yw o bosibl yn gyfystyr â gweithred anghyfreithlon, fel anonestrwydd, anghymhwysedd neu gamreoli.

*Gwybodaeth a rennir gan y CNB ag AGIC*

Lle bydd y CNB yn nodi y dylid rhannu data personol a ddelir ganddo ag AGIC er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau, rhaid iddo sicrhau bod sail gyfreithiol dros rannu data ag AGIC o dan GDPR y DU cyn gwneud hynny. Bydd y sail gyfreithiol dros rannu data fel rheol yn cynnwys y canlynol:

- Rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6(1)(c))

- Tasg gyfreithiol (Erthygl 6(1)(e))

Mae'n debygol y bydd hyn yn unol ag Erthygl 3(5) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r CNB gydweithredu â chyrff fel AGIC wrth arfer ei swyddogaethau er mwyn ceisio amddiffyn y cyhoedd (amcan cyffredinol Erthygl 3(4)).

Lle bo hyn yn cynnwys data categori arbennig, Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU yw sail gyfreithiol y CNB o dan Erthygl 9 GDPR y DU – rhesymau sy'n ymwneud â budd cyhoeddus sylweddol â sail gyfreithiol glir. Amod 6 yw'r amod budd cyhoeddus sylweddol: at ddibenion statudol a llywodraethol o dan Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018.

Mae dyletswydd statudol ar y CNB, o dan Erthygl 22(9) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, i gyhoeddi gorchmynion a phenderfyniadau a wneir gan ei Bwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer. Mae ganddo hefyd y pŵer i rannu'r penderfyniadau hyn. Fodd bynnag, mae ganddo bŵer disgresiwn i gadw unrhyw wybodaeth am iechyd corfforol neu feddyliol person yn ôl os bydd o'r farn bod y wybodaeth honno'n gyfrinachol (22(12)). Gall y CNB ddatgelu unrhyw wybodaeth i unrhyw berson am addasrwydd unigolyn i ymarfer os bydd o'r farn bod datgelu'r wybodaeth honno o fudd i'r cyhoedd (22(10)), gan gynnwys AGIC.

Er mwyn asesu'n briodol a yw unigolyn yn peri risg i'r cyhoedd, gall fod angen i'r CNB gael gafael ar wybodaeth benodol ac mae Erthygl 25(1) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn rhoi'r pŵer i'r CNB ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson a all, ym marn y CNB, ddarparu gwybodaeth neu lunio unrhyw ddogfen sy'n ymddangos yn berthnasol wneud hynny, er mwyn helpu i gyflawni ei swyddogaeth addasrwydd i ymarfer. Mae Erthygl 6(1)(c) o GDPR y DU yn rhoi sail gyfreithiol dros brosesu pan fo *“processing is necessary for compliance with a legal obligation to which the controller is subject”*.

Gall y CNB, o bryd i'w gilydd, roi cyfarwyddyd i gwmnïau cyfreithwyr allanol weithredu ar ei ran ar faterion addasrwydd i ymarfer. Lle bydd y cwmni allanol yn cadarnhau yn ysgrifenedig ei fod yn gweithredu ar ran y CNB dan gontract sy'n gyfreithiol gyfrwymol, ac yn cadarnhau'r sail gyfreithiol dros ei gais i rannu gwybodaeth benodol, bydd AGIC yn trin y cwmni allanol yn yr un ffordd ag y byddai'n trin y CNB yn unol â thelerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

*Asesiadau o Effaith Rhannu'r Data*

Mae Adran Hawliau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i AGIC gwblhau Adnodd Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data cyn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol a'i gyflwyno.

Mae'r CNB hefyd yn cytuno y bydd yn paratoi ei Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ei hun er mwyn dogfennu'r broses arfaethedig ar gyfer rhannu'r mathau o Ddata Personol a Data Personol Categori Arbennig i'w prosesu a'r trefniadau manwl ar gyfer rhannu'r data hyn.

Bydd Adran Hawliau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i AGIC os bydd angen cytundeb rhannu gwybodaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i AGIC gwblhau a chyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a llunio cytundeb rhannu gwybodaeth i gefnogi'r broses o rannu unrhyw wybodaeth bersonol.

Dylai Adran Gyfreithiol Llywodraeth Cymru adolygu a chymeradwyo'r cytundeb rhannu gwybodaeth cyn i'r partneriaid ei gymeradwyo.

*Cyfrinachedd a rhoi gwybod am achosion o dor diogelwch data*

Caiff data eu trin yn unol â pholisïau diogelu data'r CNB fel y cânt eu diwygio o bryd i'w gilydd.

Cytunir ar fesurau diogelwch priodol i ddiogelu'r broses o drosglwyddo gwybodaeth yn unol â sensitifrwydd y wybodaeth ac unrhyw ddosbarthiad y mae'r anfonwr yn ei gymhwyso.

Lle caiff deunydd cyfrinachol ei rannu rhwng y Partïon, bydd y dosbarthiad diogelwch priodol wedi'i nodi arno.

Lle bydd un parti wedi cael gwybodaeth gan y llall, bydd yn ymgynghori â'r parti arall cyn anfon y wybodaeth at drydydd parti neu ddefnyddio'r wybodaeth fel rhan o achos.

Lle caiff deunydd cyfrinachol a gafwyd gan y parti gwreiddiol, neu a rannwyd gan y parti hwnnw, ei ddatgelu'n amhriodol gan y parti sy'n meddu ar y wybodaeth, bydd y parti hwn yn tynnu sylw'r parti gwreiddiol at hyn yn ddi-oed. Mae hyn yn ychwanegol at y rhwymedigaethau i roi gwybod am achos o dor diogelwch data o dan GDPR y DU a/neu'r Ddeddf Diogelu Data lle bydd data personol wedi'u cynnwys yn y wybodaeth a ddatgelwyd.

Bydd y Partïon yn amddiffyn cyfrinachedd a sensitifrwydd unrhyw wybodaeth reoliadol sydd heb ei chyhoeddi ac unrhyw wybodaeth gyfrinachol arall a geir gan y parti arall ac yn cynnal rheolaethau effeithiol sy'n anelu at leihau'r risg y caiff gwybodaeth ei datgelu mewn ffordd amhriodol.